CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**30.09.20**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Presennol: JAJ (Cadeirydd); DW;GW;TAJ;BJ DL; JOJ<br>Ymddiheuriadau: RJ; DP; EO; IW; AR<br>Mynychu: SWR Cyng Ken Hughes |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd KH a JAJ diddordeb yn Eitem 5 – trafod materion cynllunio<br>Datganodd DAW ddiddordeb yn Eitem 6 Materion Cyllidol |
| 3 | **Rheolaethu**<br>**Ethol Swyddogion**<br>Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd presennol aros yn eu swyddi am 12 mis arall.<br>**Cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol Gymuned.**<br>Adroddodd y Clerc bod DL yn dymuno terfynu ei chyfnod yn gynrychiolydd y Cyngor Cymdeithas ar y Corff yn dilyn cyfnod o 10 mlynedd. Cytunwyd i'r Clerc holi'r Pennaeth os oes modd i GW fod yn gynrychiolydd y Cyngor a'r Corff ddewis gynrychiolydd arall o'r Gymuned.<br>**Sedd Wag**<br>Nodwyd bod sedd wag ar y Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad Eryl Williams. Cytunwyd i'r Clerc i holi CSYM am y drefn ethol ac i'r Cynghorwyr holi os oes gan unrhyw un yn y gymuned ddiddordeb yn y swydd. Ymlaen i raglen cyfarfod mis Hydref. |
| 4 | **Diweddariad ers 06.08.20** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad uchod a gylchredwyd o flaen llaw. Nododd TAJ ei fod yn bwriadu trefnu cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan cyn diwedd Hydref a bydd unrhyw fater ynglŷn â'r Clwb Snwcer yn cael ei drafod gan y Pwyllgor hwn. |
| **5** | **Materion i'w trafod a'u penderfynu**<br><br>**Sul y Cofio**<br><br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i Gynllun A sef symud ymlaen gyda'r trefniadau fel arfer ond yn unol ag arweiniad y Llywodraeth ar COVID 19. Clerc a JAJ i weithredu.<br><br>Cynllun B - os na fydd modd cynnal cynulliad arferol, cytunwyd i hyd at 6 (yn cynnwys cynrychiolaeth o blant ysgol) osod rithoedd a llif byw (live stream) ar Gwep-lyfr. Bydd angen hysbysebu hyn ar gwefan y Cyngor ac ar lafar.<br><br>**Cerbyd ar safle'r Stesion**<br><br>Adroddodd y Clerc bod Carolyn Owen wedi mynegi pryder bod dwy olwyn y fan fawr werdd ar safle'r stesion ar 'jacks' ac yn berygl. Adroddwyd i'r Heddlu ac fe wnaeth y perchennog osod yr olwynion yn ôl yn syth. Bellach mae'r perchennog yn hapus i drafod unrhyw cynnig i wella ar y sefyllfa. Cytunwyd i'r Clerc ateb e-bost y perchennog gan gynnig cytundeb 6 mis iddo barcio yn yr un safle a'r garafan am rhent o £10 y mis.<br><br>**Cais Cynllunio Tyn Ffynnon**<br><br>Trafodwyd y cais uchod a dderbyniwyd gan Cwmni Cadnant, asiant ar ran yr ymgeiswyr. Cylchredwyd y wybodaeth eisoes a nodwyd mai ymgynghoriad ydyw cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol i CSYM. Nododd TAJ ei fod yn falch mai llwybr troed yn unig sydd i'r stad arfaethedig o ochr Stryd Coedwig gan fod trafnidiaeth yn drwm eisoes ar y ffordd yma. Cymeradwywyd y cynllun mewn egwyddor ond cytunwyd yn unfrydol y dylid manteisio ar y cyfle i sefydlu encilfa (lay-by) nail ochr i'r fynedfa a hefyd gosod pafin ochr arall i'r ffordd o Teras Gladstone hyd at Peniel mewn ymgais i liniaru'r broblem parcio ddybryd ar ffordd Caergybi. Clerc i lunio ymateb i Cwmni Cadnant ac anfon copi at yr Adran Gynllunio CSYM. (TAJ/JOJ)<br><br>**Cais Cynllunio Cae Mawr –** dim diweddariad. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>Cyflog Clerc - cytunwyd i dalu am y cyfnod Gorffennaf, Awst a Medi. Cytunwyd hefyd i ad-dalu i Clerc am danysgrifiad ZOOM sef £14.39 y mis, bydd hyn yn hwyluso trefnu cyfarfodydd dros y misoedd nesaf. Nodwyd bod modd canslo'r tanysgrifiad unrhyw adeg. Clerc i ychwanegu at y cyflog pob diwedd chwater - dechrau Rhagfyr 2020. |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Taliadau Misol**<br>• Gwyn Williams - trwsio a gosod cyfarpar yn Glan Menai a Cae Gofeb yn dilyn archwiliadau ROSPA - £60<br>• Holeb/Gwobr i Grŵp LlanNi – cyflwyno rhodd o £50 tuag at gystadleuaeth llunio logo i'r Grŵp neu wobr am gwblhau holiadur - Grwp LlanNi i benodi fel bo'n briodol<br>• Noddi Twll Golff Llan – nodwyd mai Ffrindiau'r Ysgol Gymuned fydd yn derbyn nawdd eleni. Cytunwyd i noddi twll yn y gystadleuaeth - £50.<br><br>Cais i law gan Gadeirydd Grŵp Rhandiroedd yn nodi bod y rhent yn ddyledus. Eglurodd bod nifer y tenantiaid wedi mynd lawr o 8 i 5 felly yn anodd casglu'r arian. Nododd DL bod y gwaith sydd yn mynd rhagddo yno yn arbennig a bod y safle werth ei weld. Cytunwyd yn unfrydol i hepgor y rhent ac ail-edrych ar y sefyllfa ym mis Hydref 2021 (DL/DW) Clerc i ohebu gyda'r Cadeirydd. |
| **6** | **Unrhyw fater arall trwy'r Gadair**<br><br>• **Difrod yn Glan Menai**<br>Nododd y Cadeirydd bod cewyll o fewn y biniau sbwriel wedi eu malu ar safle Glan Menai ac wedi eu taflu i'r afon. Wrth ymweld â'r safle cafwyd enwau'r troseddwyr ac fe adroddodd y Clerc am y digwyddiad i'r Heddlu. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i anfon llun o'r difrod a chostau prynu cewyll newydd at y PCSO gan ei bod yn bwriadu ymweld â'r troseddwyr dros y penwythnos i roi rhybudd iddynt.<br>Cyfeiriwyd hefyd at blant oed Uwchradd yn ymgynnull yn adfail Bryn Llwyd. Cytunwyd i ddwyn hyn i sylw'r Heddlu<br>• **Carreg Fedd**<br>Nododd y Clerc bod carreg fedd wedi ei dymchwel (er mwyn sicrhau ei bod yn saff) yn y Fynwent Gyhoeddus. Cadarnhawyd bod y garreg yn perthyn i deulu Gwenda Lloyd Pritchard, Rhosybol. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Mrs Pritchard yn nodi bod y Cyngor Cymdeithas yn cynnig ail-osod y garreg mor fuan â phosib ond yn rhoi gwybod i'r teulu fel mater o gwrteisi neu rhag ofn ei bod yn dymuno gwneud y gwaith eu hunain.<br>Nodwyd hefyd bod angen ail-edrych ar Polisi'r Fynwent ynglŷn â materion o'r fath a bod angen sefydlu system Asesu Risg ffurfiol. Clerc i weithredu.<br><br>**DW** - holodd am sefyllfa gosod llinellau melyn drwy'r pentref - Clerc i gysylltu â CSYM<br>- holodd am sefyllfa gosod llwybrau newydd yn y Fynwent Gyhoeddus - Clerc i gysylltu â RPO Williams rhag blaen. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

|  |  |
|---|---|
|  | **GW** cyfeiriodd at broblem parcio wrth Maes Ceidio a Teras Gladstone. Clerc i hysbysu'r Heddlu eto am hyn.<br>• Nododd bod Marcus Roberts wedi cwblhau arolwg CCTV yn safle'r Stesion.<br>• Darnau asbestos wedi eu dympio ger encilfa yn Bachau ond wedi eu clirio bellach.<br>• Cyfeiriodd at safle ar y Foel sydd yn argoeli i fod yn safle archeolegol pwysig. Mae Arwyn Owen wedi trefnu cloddfa anffurfiol ac yn disgwyl ymateb pellach. Cytunwyd bod hwn yn newydd cyffrous iawn i Llan.<br><br>**BJ** - cyfeiriodd at y gwaith diflino sydd yn parhau i fynd rhagddo i helpu trigolion Llan yn ystod cyfnod COVID 19. Mae gwirfoddolwyr yn parhau i nôl neges, prescriptiwn ac ymweld ac mae'r Banc Bwyd yn cael sawl cais am help gan deuluoedd yn y pentref. Cytunwyd yn unfrydol bod hwn wedi body n waith allweddol ac yn arwydd o sut mae cymdogaeth dda yn dod at ei gilydd mewn argyfwng. Dywedodd BJ hefyd bod gwaith ar y gweill i wario £1k grant i arddio gyda phlant yr Ysgol Gymuned.<br>Cytunodd BJ i anfon dadansoddiad o'r arian mae'r Gyngor Cymdeithas yn ei weinyddu at y Clerc er mwyn sicrhau gofynion archwilio tryloyw.<br>**JAJ** - nododd bod grid wrth y mynediad i Capel Ifan angen sylw'r Adran Priffyrdd. Nododd y Clerc ei bod wedi adrodd am hyn i CSYM bore heddiw ar gais Cyng. Robin Jones.<br>- cyflwr y pafin ger fflatiau Twrcelyn angen sylw eto ynghyd a gwaith chwynnu eraill trwy'r pentref - Clerc i gysylltu â CSYM<br><br>Cytunwyd yn unfrydol ei bod yn dda gweld y gwaith hir disgwyliedig gyda gosod arwyddion stryd trwy'r pentref bellach wedi ei gwblhau. Nodwyd bod angen symud arwydd Stryd Blucher a bod swyddog CSYM wedi cytuno i wneud hynny. Diolchwyd i TAJ am arwain ar y gwaith.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm* |
|  | Cyfarfod nesaf am 7pm nos Iau 29.10.20 ar ZOOM os na fydd sefyllfa bresennol COVID 19 wedi gwella. |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com